# PANEL DETHOL Y PWYLLGOR SAFONAU

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Medi, 2017

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | **Yn cynrychioli'r Cyngor Sir** |
| | Y Cynghorwyr G.O. Jones, Robert Ll. Jones. |
| | **Yn cynrychioli'r Cynghorau Tref/Cymuned** |
| | Mr Gordon Warren |
| | **Aelod Annibynnol** |
| | Dr Hayden Edwards |
| **WRTH LAW :** | Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Monitoring Officer, Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorydd R. Meirion Jones |
| **HEFYD YN BRESENNOL :** | Neb |

---

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

**2 CAIS AM AELODAETH AR Y PWYLLGOR SAFONAU**

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro mewn perthynas â'r uchod.

Eglurodd y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro y broses ddethol statudol ar gyfer penodi i'r sedd wag ar y Pwyllgor Safonau. Roedd drafft o hysbyseb ynghlwm wrth yr adroddiad yn Atodiad 1 ac roedd pecyn yn cynnwys gwybodaeth am y Côd Ymddygiad, Rhestr Lwfansau a'r ffurflen gais ar gael yn Atodiad 2 yr adroddiad.

Gwnaed y newidiadau isod i eiriad yr hysbyseb gan y Panel :-

- y bydd Aelod Annibynnol yn cael ei benodi am gyfnod a fydd o leiaf 4 blynedd a hyd at 8 mlynedd;
- bod cyfeiriad e-bost ac enw cyswllt yn cael eu cynnwys yn y pecyn dogfennau;
- bod enw'r Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro yn cael ei gynnwys yn y fersiwn Saesneg ar dudalen 6 y dogfennau.

Rhoes y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro fanylion ynghylch costau hysbysebu'r swydd wag yn y papurau newydd lleol. Penderfynodd y Panel, er mwyn osgoi costau ychwanegol, i roi hysbyseb fer am y swydd wag yn y papurau newydd lleol gyda dolen i wefan y Cyngor am y fersiwn lawn.

**PENDERFYNWYD :-**

- **Cymeradwyo'r hysbyseb ar gyfer swydd wag Aelod Annibynnol ar y Pwyllgor Safonau, yn amodol ar y newidiadau a nodir uchod;**
- **Rhoi'r hysbyseb ar wefan y Cyngor, y dudalen Facebook a Twitter,  ynghyd ag hysbyseb fer yn unig (yn y lle cyntaf) yn y ddau bapur newydd lleol;**
- **Cymeradwyo'r cais a'r cyngor yn Atodiad 2;**
- **Cynnal y cyfarfod nesaf i dynnu rhestr fer o ymgeiswyr ar gyfer eu cyfweld ar 17 Tachwedd, 2017 am 1.00 p.m., yn Ystafell Bwyllgor 1.**